**Fframwaith Mesur Perfformiad Llywodraeth Leol ar gyfer 2008/09**

**10 Mawrth 2008**

**Y Dr Brian Gibbons**

Cyflwynwyd y Fframwaith Mesur Perfformiad Llywodraeth Leol yn 2004, ac mae ynddo ddangosyddion perfformiad Strategol Cenedlaethol a setiau o Ddangosyddion Perfformiad Craidd.

Mae grwpiau cyfeirio wedi'u sefydlu ar gyfer gwasanaethau penodol, ac mae'r grwpiau hynny'n mynd ati'n gyson i adolygu'r holl ddangosyddion perfformiad sydd yn y fframwaith. Ymhlith aelodau'r grwpiau cyfeirio hyn y mae arbenigwyr sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol a chyfarwyddiaethau polisi Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal â sefydliadau eraill sy'n bartneriaid iddynt, megis Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Ar ôl cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ddiwedd 2007 ac ar ôl i'r grwpiau cyfeirio fynd ati wedyn i'w adolygu, yr wyf wedi cytuno bod Fframwaith Mesur Perfformiad Llywodraeth Leol ar gyfer 2008-09 yn cael ei gyhoeddi. Mae'n ymdrin â'r meysydd a ganlyn lle y mae'r awdurdodau lleol yn darparu gwasanaethau: Gwasanaethau Corfforaethol; Gwasanaethau Cymdeithasol; Addysg; Tai; yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth; Cynllunio a Gwasanaethau Rheoleiddio; Hamdden a Diwylliant; a Budd-dal Tai. Disgwylir i'r awdurdodau lleol gasglu data yn unol â'r dangosyddion hyn o fis Ebrill 2008 ymlaen.

Eleni, mae rhai o'r dangosyddion perfformiad statudol (a restrir yn atodiad A) wedi newid. Roedd y set flaenorol o 22 o ddangosyddion perfformiad statudol wedi bod yn ei lle ers 2005. Newidiadau technegol yn bennaf yw'r newidiadau eleni, ac maent yn cael eu gwneud er mwyn adlewyrchu'r arferion proffesiynol presennol neu unrhyw newidiadau ehangach yn y gyfraith. Er hynny, mae ychydig o eithriadau, yn eu plith y cynigion ar gyfer y dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â budd-dal tai a budd-dal y dreth gyngor. Gan nad yw'r gwasanaethau hyn yn rhai datganoledig, mae'r cynigion yn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig i'r dangosyddion perfformiad a fydd yn cael eu pennu ar gyfer awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban o fis Ebrill 2008 ymlaen. Bydd newid arall i'r dangosyddion hefyd nad yw'n un technegol, sef ychwanegu dangosydd perfformiad statudol ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd a fydd yr un peth â'r dangosydd statudol sy'n bodoli eisoes ar bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd. Yr wyf wedi llofnodi Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) 2008, ac mae'r newidiadau i'r Dangosyddion Statudol yn y Gorchymyn hwnnw.

Mae Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) 2008, a gyflwynwyd ar 27 Chwefror, yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008. Cafodd Fframwaith llawn Mesur Perfformiad Llywodraeth Leol ar gyfer 2008-09 ei gyhoeddi ar 29 Chwefror ac mae ar gael ar wefan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol.
http://www.dataunitwales.gov.uk/eng/Project.asp?nc=L7S7&id=4113

Atodiad A

| | Cyfeirnod yn y Fframwaith | Dangosydd | Disgrifiad | Y rheswm dros y newid |
|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Oedolion** | | | | |
| **NS1** | **SCA/001** | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd. | NEWIDIWYD | Y prif ddangosydd heb ei newid;- y canllawiau wedi eu newid er eglurder. |
| **NS2** | **SCA/002** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd):<br>a) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth<br>b) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. | NEWIDIWYD | Newidiwyd er eglurder ac er mwyn sicrhau cysondeb yn y modd y cesglir data. |
| **Gofal Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant** | | | | |
| **NS3** | **SCC/001** | a) Canran y lleoliadau cyntaf i blant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a ddechreuodd gyda chynllun gofal ar waith<br>b) Ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal yr oedd eu hail adolygiad (a oedd i fod ar ôl 4 mis) i fod wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn, y ganran gyda chynllun ar gyfer sefydlogrwydd adeg y dyddiad priodol | HEB EI NEWID | HEB EI NEWID |
| **NS4** | **SCC/002** | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | HEB EI NEWID | HEB EI NEWID |
| **Tai – Digartrefedd a Chyngor ar Dai** | | | | |
| | **HHA/001** | a) Nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi defnyddio llety gwely a brecwast yn ystod y flwyddyn, ac eithrio mewn argyfyngau<br>b) Cyfartaledd nifer y diwrnodau y mae pob teulu digartref wedi eu treulio mewn llety gwely a brecwast. | DISODLWYD Gweler HHA/014 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **NS5** | **HHA/014** | a) Nifer y teuluoedd digartref gyda phlant sydd wedi defnyddio llety gwely a brecwast yn ystod y flwyddyn, ac eithrio mewn argyfyngau<br>b) Cyfartaledd nifer y diwrnodau y mae pob<br>teulu digartref gyda phlant wedi eu treulio<br>mewn llety gwely a brecwast. | YN LLE HHA/001 | Newidiwyd er mwyn adlewyrchu'r pwyslais a roddir mewn polisi ar leihau nifer y teuluoedd â phlant sy'n defnyddio llety gwely a brecwast |
| **NS6** | **HHA/002** | Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith rhwng cyflwyno person fel person digartref i'r awdurdod a chyflawni dyletswydd yr awdurdod at aelwydydd y'u ceir yn statudol ddigartref. | NEWIDIWYD | Y prif ddangosydd heb ei newid:- y canllawiau wedi eu diwygio er mwyn rhoi diffiniad mwy manwl gywir. |
| **Tai – Adnewyddu'r Sector Preifat** | | | | |
| | **PSR/001** | Canran yr anheddau anaddas yn y sector preifat a wnaed yn ffit, a gaewyd neu a ddymchwelwyd drwy weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | DILËWYD | Nid oes bellach un diffiniad cyfreithiol o 'ffitrwydd' annedd |
| **Tai – Cynorthwyo Pobl** | | | | |
| **NS7** | **SPP/001** | Cyfartaledd nifer yr unedau cymorth sy'n ymwneud â thai fesul 1000 o'r boblogaeth, ar gyfer pob un o'r mathau canlynol o wasanaeth cymorth sy'n ymwneud â thai:<br>i) Cymorth fel y bo'r angen<br>ii) Mynediad uniongyrchol<br>iii) Llety dros dro<br>iv) Llety parhaol<br>v) Llety gwarchod i bobl hŷn<br>vi) Gwasanaethau larwm cymunedol | HEB EI NEWID | HEB EI NEWID |
| **Addysg** | | | | |
| | **EDU/001** | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | DISODWLYD | Gweler EDU/016 |
| **NS8** | **EDU/016** | Canran presenoldeb disgyblion mewn:<br>a) ysgolion cynradd; a<br>b) ysgolion uwchradd. | YN LLE EDU/001 | Er mwyn cynnwys ysgolion cynradd |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **NS9** | **EDU/002** | Canran<br>i) Yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rheini sydd yng ngofal awdurdod lleol); a<br>ii) Y disgyblion sydd yng ngofal awdurdod<br>lleol, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a oedd yn 15 oed ar y<br>31 Awst blaenorol, ac yn gadael addysg<br>orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol a<br>gymeradwywyd. | NEWIDIWYD | Newidiwyd er eglurder. |
| **NS10** | **EDU/003** | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | NEWIDIWYD | Newidiwyd er eglurder. |
| **NS11** | **EDU/004** | Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon. | NEWIDIWYD | Newidiwyd er eglurder. |
| **NS12** | **EDU/011** | Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion a oedd yn 15 oed ar y 31 Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | NEWIDIWYD | Newidiwyd er eglurder. |
| **NS13** | **EDU/006** | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf):<br>i) ddiwedd Cyfnod Allweddol 2<br>ii) ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | Newidiwyd er eglurder. | |
| **Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth – Rheoli Gwastraff** | | | | |
| **NS14** | **WMT/001** | Canran y gwastraff trefol:<br>i) a ailddefnyddir ac/neu a ailgylchir<br>ii) a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall. | NEWIDIWYD | Dilewyd y gofyniad i adrodd ar niferoedd. |
| **NS15** | **WMT/002** | Canran y gwastraff trefol pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi | NEWIDIWYD | Dilewyd y gofyniad i adrodd ar niferoedd. |
| **Yr Amgylchedd a Thrafnidaieth – Trafnidiaeth a Phriffyrdd** | | | | |
| **NS16** | **THS/010** | Canran:<br>a) Y prif ffyrdd (dosbarth A);<br>b) Y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd/ ffyrdd dosbarthedig; sydd mewn | NEWIDIWYD | Diwygiwyd er eglurder. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | cyflwr gwael yn gyffredinol. | | |
| **Cynllunio a Gwasanaethau Rheoleiddio – Diogelu'r Cyhoedd** | | | | |
| **NS17** | **PPN/001** | Canran y busnesau uchel eu risg sy'n agored i gael arolygiadau wedi'u rhaglennu o ran<br>i) Safonau Masnach<br>ii) Hylendid Bwyd<br>iii) Iechyd Anifeiliaid<br>iv) Iechyd a Diogelwch | NEWIDIWYD | Dilëwyd y gofyniad i adrodd ar niferoedd. |
| **Tai – Effeithlonrwydd Ynni** | | | | |
| **EEF/001** | **Tai – Effeithlonrwydd Ynni** | a) Canran y newid mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc cyhoeddus annomestig<br>b) Canran y newid yn y defnydd o ynni ac mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc dai | DISODLWYD Gweler EEF/002 | Newidiwyd er eglurder ac at ddibenion adrodd |
| **NS18** | **EEF/002** | a) Canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc adeiladau cyhoeddus annomestig<br>bi) Canran y gostyngiad yn y defnydd o ynni yn y stoc dai<br>bii) canran y gostyngiad mewn allyriadau carbon deuocsid yn y stoc dai | YN LLE EEF/001 | Newidiwyd er eglurder ac at ddibenion adrodd |
| **Tai – Bud-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor** | | | | |
| | **BNF/001** | a) Nifer yr hawlwyr yr ymwelwyd â hwy, fesul 1,000 o achosion<br>b) Nifer yr archwilwyr twyll a gyflogwyd fesul 1,000 o achosion<br>c) Nifer yr ymchwiliadau twyll fesul 1,000 o achosion<br>d) Nifer yr erlyniadau a'r cosbau fesul 1,000 o achosion | DILËWYD | Dilëwyd ar gais yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| | **BNF/002** | Cyflymder prosesu:<br>a) Yr amser a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu ceisiadau newydd<br>b) Yr amser a gymerir, ar gyfartaledd, i brosesu hysbysiadau ynghylch newid mewn amgylchiadau | DILËWYD | Dilëwyd ar gais yr Adran Gwaith a Phensiynau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **BNF/003** | Cywirdeb y gwaith prosesu<br>1. a) Canran yr achosion lle cafodd swm cywir y<br>budd-dal a oedd yn ddyledus ei gyfrifo'n gywir yn<br>ôl yr wybodaeth a oedd ar gael mewn sampl o<br>achosion a wiriwyd ar ôl gwneud y penderfyniad<br>2. b) Canran y gordaliadau Budd-dal Tai a gafodd<br>eu hadennill | DILËWYD | Dilëwyd ar gais yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| **NS19** | **BNF/004** | Yr amser a gymerwyd i brosesu hawliadau newydd a digwyddiadau o newid mewn Budd-daliadau Tai (BT) a Budd-daliadau'r Dreth Gyngor (BTG). | NEWYDD | Yn newydd ar gais yr Adran Gwaith a Phensiynau |
| **NS20** | **BNF/005** | Nifer y newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar hawl cwsmeriaid i gael Budd-dal Tai (BT) neu Fudd-dal y Dreth Gyngor (BTG) yn ystod y flwyddyn. | NEWYDD | Yn newydd ar gais yr Adran Gwaith a Phensiynau |